Drwy e-bost

Kirsty Williams
Y Gweinidog Addysg

24 Tachwedd 2020

Ymateb i lythyr a chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru dyddiedig 17 Tachwedd 2020

Annwyl Weinidog,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Tachwedd 2020, yn amgáu eich cyfarwyddyd o dan adran 53 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 ("y Ddeddf").

Rydym yn cydnabod bod eich penderfyniadau polisi ynghylch canslo arholiadau haf 2021 wedi'u gwneud mewn amgylchiadau eithriadol, sydd y tu hwnt i reolaeth unrhyw un. Nid oes unrhyw ateb perffaith i'r sefyllfa anodd sy'n ein hwynebu, ac mae risgiau gyda'r holl opsiynau sydd ar gael. Rydym hefyd yn cydnabod na fydd pa ateb bynnag a ddatblygir yn cael cefnogaeth unfrydol.

Fel yr ydych wedi cydnabod yn eich cyfarwyddyd a'ch llythyr eglurhaol, fel rheolydd annibynnol cymwysterau yng Nghymru, ein rôl yw sicrhau bod cymwysterau, a'r system gymwysterau yng Nghymru, yn effeithiol o ran bodloni anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru, a hybu hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn y system gymwysterau yng Nghymru. Er mwyn cyflawni ein prif nodau, rydym yn llwyr gyfrifol am reoleiddio cymwysterau yng Nghymru, gan gynnwys dull eu hasesu. Wrth gyflawni ein swyddogaethau mae'n ofynnol i ni ystyried unrhyw gyfarwyddyd a gyhoeddir gennych o dan adran 53 o'r Ddeddf.

Wrth gyflawni ein dyletswydd o dan adran 53 o'r Ddeddf, cyfarfu ein Bwrdd ar 19 Tachwedd 2020 ac ystyriwyd eich cyfarwyddyd i ni ar 17 Tachwedd 2020. Nodir isod ystyriaeth y Bwrdd o bob agwedd ar y cyfarwyddyd.

Yn gyntaf, o ran eich cyfarwyddyd i roi sylw i bolisi Llywodraeth Cymru na ddylai carfan haf 2021 o ddysgwyr TGAU, UG a Safon Uwch yng Nghymru sy'n dilyn cymwysterau cymeradwy Cymwysterau Cymru sefyll arholiadau wedi'u cydgysylltu a'u hamserlennu'n genedlaethol yn ystod haf 2021; ystyriodd y Bwrdd

- y ffaith bod ei gyngor cyhoeddedig i chi ar y pwnc hwn, a gyhoeddwyd cyn i'r cyfarwyddyd gael ei wneud, yn argymell na ddylid cael arholiadau wedi'u cydgysylltu a'u hamserlennu'n genedlaethol yn haf 2021 ar gyfer myfyrwyr TGAU ac UG; ond y dylai arholiadau Safon Uwch a gydlynir ac a amserlennir yn genedlaethol fynd rhagddynt;

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.cymwysteraucymru.org

- bod derbyn y cyfarwyddyd gennych ynglŷn â safbwynt polisi Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd ailystyried ei safbwynt y dylid cynnal arholiadau Safon Uwch wedi'u cydgysylltu a'u hamserlennu yn genedlaethol yn haf 2021;
- y ffaith bod yr adolygiad annibynnol a sefydlwyd gennych i ystyried y gwersi a ddysgwyd o weithrediad cyfres arholiadau haf 2020 wedi argymell na ddylid cynnal arholiadau Safon Uwch wedi'u cydgysylltu a'u hamserlennu'n genedlaethol yn haf 2021;
- y ffaith eich bod wedi ymgysylltu'n ychwanegol â rhanddeiliaid ar y cwestiwn a ddylid cael arholiadau Safon Uwch wedi'u cydgysylltu a'u hamserlennu'n genedlaethol yn ystod haf 2021; a,
- y ffaith bod eich datganiad o bolisi Llywodraeth Cymru ar arholiadau Safon Uwch yn haf 2021 i'r Cynulliad wedi'i gyhoeddi'n eang yn y wasg, yn ogystal â sylwadau a wnaed ar ôl y datganiad; a bod y datganiad hwnnw a'r sylwadau hynny wedi'u hadrodd fel arwydd o'r hyn a fyddai'n digwydd o ran arholiadau Safon Uwch yn haf 2021, yn hytrach nag fel datganiad o bolisi Llywodraeth Cymru gyda'r penderfyniad terfynol ar gyfer Cymhwyster Cymru fel y rheoleiddiwr.

Yng ngoleuni'r ystyriaethau uchod, penderfynodd y Bwrdd na ddylai arholiadau Safon Uwch a gydlynir ac a amserlennir yn genedlaethol fynd rhagddynt yn haf 2021. Gwnaeth y penderfyniad hwnnw am y rhesymau canlynol:

- yng ngoleuni eich barn, barn yr adolygiad annibynnol, a'r rhanddeiliaid yr oeddech wedi ymgysylltu â hwy, roedd Cymwysterau Cymru o'r farn bod rhai aelodau o'r cyhoedd o'r farn na ddylai arholiadau Safon Uwch a gydlynir ac a amserlennir yn genedlaethol fynd rhagddynt yn haf 2021;
- er na allai barn aelodau'r cyhoedd fod yn benderfyniadol o'r cwestiwn, ac na ddylai fod yn benderfyniadol, roedd y Bwrdd o'r farn bod y safbwyntiau hynny'n berthnasol, o ystyried digwyddiadau 2020, o ran hyder y cyhoedd mewn cymwysterau yng Nghymru;
- yn yr un modd, daeth y Bwrdd i'r casgliad bod y ffordd y cyhoeddwyd eich cyhoeddiad yn golygu bod y cyhoedd yng Nghymru o'r farn bod penderfyniad terfynol ar arholiadau Safon Uwch haf 2021 wedi'i wneud;
- unwaith eto, er na allai hyn fod yn benderfyniadol o'r cwestiwn, roedd y Bwrdd o'r farn y gallai fod difrod sylweddol i hyder y cyhoedd mewn cymwysterau yng Nghymru pe bai'r rheoleiddiwr yn awr yn cyhoeddi y byddai arholiadau Safon Uwch wedi'u cydgysylltu a'u hamserlennu'n genedlaethol, mewn gwirionedd, yn mynd rhagddynt yn haf 2021;
- roedd y Bwrdd yn ymwybodol iawn o'r risgiau o ganslo'r arholiadau Safon Uwch a gydlynwyd ac a amserlennwyd yn genedlaethol, gan gynnwys o ran y canfyddiad o werth y cymwysterau, agwedd sefydliadau addysg uwch a'r amser sydd ar gael i ddyfeisio mecanwaith asesu amgen teg a chadarn;
- fodd bynnag, ar y cyfan, penderfynodd y Bwrdd y byddai canslo arholiadau Safon Uwch wedi'u cydgysylltu a'u hamserlennu'n genedlaethol ar gyfer haf 2021 er lles gorau dysgwyr yng Nghymru, ac y byddai'n hybu hyder yn y system gymwysterau yng Nghymru.

Yn ail, mewn perthynas â'ch cyfarwyddyd i roi sylw i bolisi Llywodraeth Cymru, fel dewis amgen i arholiadau haf datblygir dull o ymdrin â chanlyniadau sy'n seiliedig ar ganolfannau sy'n gysylltiedig â dull cenedlaethol cytûn o sicrhau cysondeb ledled Cymru; ac mai bwriad polisi Llywodraeth Cymru yw y bydd dull gweithredu cyffredin ledled Cymru sy'n darparu tryloywder a thrylwyredd; gwnaeth y Bwrdd:

- gymeradwyo'r angen i fabwysiadu dull cyson o ymdrin â dull asesu amgen ledled Cymru, a oedd yn darparu tryloywder a thrylwyredd;
- mynegi pryder ynghylch yr amserlenni ar gyfer datblygu dulliau asesu amgen; a
- chyfarwyddo swyddogion Cymwysterau Cymru i ddechrau gweithio ar y cyd â CBAC ar ystyried pa ddulliau asesu amgen a allai fod yn bosibl.

Bydd y Bwrdd, fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, hefyd yn ystyried eich cyfarwyddyd ar y pwynt ei fod yn gwneud penderfyniad perthnasol ar y dull amgen o ddyfarnu'r cymwysterau dan sylw.

Yn olaf, mewn perthynas â'ch cyfarwyddyd i roi sylw i bolisi Llywodraeth Cymru bod cynigion polisi ar gyfer canlyniadau sy'n seiliedig ar ganolfannau, yn cael eu cyd-adeiladu â'r sector addysg drwy'r Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni sydd wedi'i sefydlu; ystyriodd y Bwrdd:

- y ffaith nad oes gan y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni unrhyw bŵer yn ôl y gyfraith i wneud penderfyniadau am ddulliau asesu amgen ar gyfer y cymwysterau dan sylw;
- y ffaith mai grŵp cynghori yn unig yw'r Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni a fydd yn eich cynghori ar faterion polisi; a
- bod gan Cymwysterau Cymru y pŵer i roi cyngor a chymorth i'r Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni o ganlyniad i'w bwerau cysylltiedig, ond na allent wneud penderfyniadau gyda'r Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni ynghylch dulliau asesu ar gyfer y cymwysterau dan sylw, o ystyried diffyg pŵer i wneud penderfyniadau yn y Grŵp, ac o ystyried rôl Cymwysterau Cymru fel rheoleiddiwr cymwysterau annibynnol yng Nghymru.

Ar ôl ystyried, penderfynodd y Bwrdd:

- y bydd swyddogion Cymwysterau Cymru yn mynychu cyfarfodydd y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni i roi cyngor a chymorth i'r grŵp wrth lunio ei argymhellion i chi.

Yn amlwg, rhagwelir y bydd y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni yn rhoi cyngor i chi o fewn cyfnod cymharol fyr. Ar ôl darparu'r cyngor hwnnw, ac unrhyw gyhoeddiadau polisi a/neu gyfarwyddiadau pellach gennych chi, yn ogystal ag ystyried barn CBAC, bydd y Bwrdd yn penderfynu beth yw'r dull priodol o asesu TGAU, UG a Safon Uwch yn haf 2021, a bydd yn gwneud addasiadau i'r fframwaith rheoleiddio yn ôl y gofyn.

Mae'r Bwrdd wedi cytuno ar gyfres o egwyddorion y bydd yn eu defnyddio i ystyried unrhyw gynigion polisi manwl ar drefniadau asesu ar gyfer haf 2021 a ddarparwch mewn cyfarwyddydau yn y dyfodol. Byddwn yn ysgrifennu atoch chi ac at Gadeirydd y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni cyn bo hir i rannu'r egwyddorion hyn fel bod tryloywder yn y ffordd y gwneir penderfyniadau. Gobeithiwn y bydd ystyried yr egwyddorion hyn yn

ddefnyddiol i chi wrth i chi ystyried allbwn y grŵp.

Fel bob amser, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i weithio'n agos gyda chi ar y materion anodd hyn fel y gellir asesu dysgwyr yng Nghymru yn y ffordd decaf bosibl yn ystod y cyfnod eithriadol hwn.

Yn gywir,

David B Jones OBE DL
Cadeirydd

Philip Blaker
Prif Weithredwr